**Safonau proffesiynol ar gyfer cynorthwyo addysgu**

**Crynodeb o newidiadau yn sgil ymgynghori**

O ganlyniad i arolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, gwnaed rhai newidiadau i'r safonau proffesiynol ar gyfer cynorthwyo addysgu. Fe'u dangosir yn y tabl isod yn erbyn y fersiwn ymgynghori wreiddiol.

Gellir dod o hyd i'r safonau proffesiynol ar gyfer cynorthwyo addysgu terfynol yn hwb.gov.wales/datblygiad-proffesiynol/safonau-proffesiynol

| Tudalen | Y fersiwn ymgynghori wreiddiol | Y fersiwn derfynol |
|---|---|---|
| Tudalen 1 | Croeso i'r tudalennau hyn a fydd yn eich arwain drwy'r safonau proffesiynol drafft ar gyfer cynorthwyo addysgu yng Nghymru a fydd ar gael i'w defnyddio o fis Medi 2018 ac a fydd yn sylfaen i ymgynghoriad yn y misoedd i ddilyn.<br><br>. | Croeso i'r tudalennau hyn a fydd yn eich arwain drwy'r safonau proffesiynol ar gyfer cynorthwyo addysgu**. Mae'r safonau'n rhan o ystod o safonau ar gyfer athrawon, arweinwyr a'r rhai sy'n cynorthwyo addysgu. Fe'u cynlluniwyd i'ch cefnogi i fod y gorau y gallwch ac maent yn adlewyrchu arferion sy'n gyson â gwireddu'r cwricwlwm newydd.**<br><br>**O 1 Medi 2019 ymlaen bydd y safonau ar gael i'w defnyddio gan bob cynorthwyydd addysgu a chynorthwywyr addysgu lefel uwch er mwyn myfyrio ar eu harferion a nodi dysgu proffesiynol.** |
| Tudalen 15 | **Arweinyddiaeth... helpu addysgeg i dyfu**<br><br>Mae'r cynorthwyydd addysgu yn cymryd cyfrifoldeb dros gefnogi atebolrwydd athrawon a chynnydd dysgwyr penodol. Mae'n mynd ati'n gyson i gefnogi'r gwaith o arwain timau neu'r ysgol drwy gyfrannu'n llawn er mwyn ceisio sicrhau'r deilliannau gorau i ddysgwyr. | **Arweinyddiaeth... helpu addysgeg i dyfu**<br><br>Mae'r cynorthwyydd addysgu yn cymryd cyfrifoldeb **am eu rôl o gefnogi atebolrwydd athrawon** a chynnydd dysgwyr penodol. Mae'n mynd ati'n gyson i gefnogi'r gwaith o arwain timau neu'r ysgol drwy gyfrannu'n llawn er mwyn ceisio sicrhau'r deilliannau gorau i ddysgwyr. |
| Tudalen 15 | **Dysgu proffesiynol... cymryd addysgeg yn ddyfnach**<br><br>Yn ogystal, mae'r cynorthwyydd addysgu lefel uwch wedi caffael sgiliau digidol a sgiliau llythrennedd a rhifedd, oll ar Lefel 2 o'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol. Hefyd, maent wedi cwblhau'n llwyddiannus y dysgu proffesiynol | **Dysgu proffesiynol... cymryd addysgeg yn ddyfnach**<br><br>Yn ogystal, mae'r cynorthwyydd addysgu lefel uwch wedi caffael sgiliau **llythrennedd a rhifedd**, oll ar Lefel 2 o'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol. Hefyd, maent wedi cwblhau'n llwyddiannus y dysgu proffesiynol |

| | | |
|---|---|---|
| | sydd ei angen i fod yn ddeiliad statws cynorthwyydd addysgu lefel uwch. | sydd ei angen i fod yn ddeiliad statws CALU |
| Tudalen 33 | **Disgrifydd arfer effeithiol iawn a pharhaus:**<br><br>Mae'r cynorthwyydd addysgu yn gallu cynnal sgyrsiau ffurfiol ac anffurfiol er mwyn i'r dysgwyr weld bod eu hawgrymiadau a'u syniadau yn cael eu rhoi ar waith mewn ffordd gynhyrchiol. | **Disgrifydd arfer effeithiol iawn a pharhaus:**<br><br>Mae'r cynorthwyydd addysgu yn gallu cynnal sgyrsiau ffurfiol ac anffurfiol er mwyn i'r dysgwyr weld bod eu hawgrymiadau**'n rhai dilys a bod eu** syniadau yn cael eu rhoi ar waith mewn ffordd gynhyrchiol. |
| Tudalen 40 | **Y safon:**<br><br>Yn ogystal, mae'r cynorthwyydd addysgu lefel uwch wedi caffael sgiliau digidol a sgiliau llythrennedd a rhifedd, oll ar Lefel 2 o'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol. Hefyd, maent wedi cwblhau'n llwyddiannus y dysgu proffesiynol sydd ei angen i fod yn ddeiliad statws cynorthwyydd addysgu lefel uwch. | **Y safon:**<br><br>Yn ogystal, mae'r cynorthwyydd addysgu lefel uwch wedi caffael sgiliau **llythrennedd a rhifedd**, oll ar Lefel 2 o'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol. Hefyd, maent wedi cwblhau'n llwyddiannus y dysgu proffesiynol sydd ei angen i fod yn ddeiliad statws cynorthwyydd addysgu lefel uwch. |
| Tudalen 43 | **Disgrifydd arfer effeithiol:**<br><br>Mae'r cynorthwyydd addysgu yn gwneud ymdrech i ddangos i ddysgwyr mor gyffrous yw dysgu'r Gymraeg a deall diwylliant a hanes Cymru. | **Disgrifydd arfer effeithiol:**<br><br>Mae'r cynorthwyydd addysgu **yn cymryd camau i gynyddu ei sgiliau ei hun** drwy'r Gymraeg ac yn gwneud ymdrech i ddangos i ddysgwyr mor gyffrous yw dysgu'r Gymraeg a deall diwylliant a hanes Cymru. |
| Tudalen 46 | **Disgrifydd arfer effeithiol iawn a pharhaus:**<br><br>Mae'r cynorthwyydd addysgu yn cefnogi dulliau newydd o ran addysgeg, ac yn cynorthwyo er mwyn deall gwelliant mewn dysgu. | **Disgrifydd arfer effeithiol iawn a pharhaus:**<br><br>Mae'r cynorthwyydd addysgu yn cefnogi dulliau newydd o ran addysgeg, ac yn cynorthwyo **â'r broses o ddeall** gwelliant mewn dysgu. |
| Tudalen 47 | **Y safon:**<br><br>Mae'r cynorthwyydd addysgu yn cymryd cyfrifoldeb dros gefnogi atebolrwydd athrawon a chynnydd dysgwyr penodol. Mae'n mynd ati'n gyson i gefnogi'r gwaith o arwain timau neu'r ysgol drwy gyfrannu'n llawn er mwyn | **Y safon:**<br><br>Mae'r cynorthwyydd addysgu yn cymryd cyfrifoldeb **am eu rôl o gefnogi atebolrwydd** athrawon a chynnydd dysgwyr penodol. Mae'n mynd ati'n gyson i gefnogi'r gwaith o arwain timau neu'r ysgol drwy gyfrannu'n llawn |

| | | |
|---|---|---|
| | ceisio sicrhau'r deilliannau gorau i ddysgwyr. | er mwyn ceisio sicrhau'r deilliannau gorau i ddysgwyr. |